COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2ail o ORFFENNAF 2018 YN FESTRI SALEM,PEDAIR HEOL AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Geoff Hewitt (Cadeirydd yn y gadair),Ian Evans,Linda Williams,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Tracey James,Carol Williams,Aled Williams,Alan Lewis,Geraint Rosser,Margaret Rees a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Meic Bowen

Materion Personol:-

1997 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.Cydymdeimlwyd a Theulu'r diweddar Cyn Cynghorwr Ellis Jenkins a diolchwyd am ei gyfraniad arbennig i'r Cyngor Cymuned dros gyfnod hir. Safodd pawb mewn munud o ddistawrwydd er coffa amdano. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250 i elusen Marie Curie er cof.

1998 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 04/06/2018 fel rhai cywir.

1999 Materion yn codi.

Tud 1..Cofnod Rhif 1980 - Safle Ail-gylchu Meinciau – Penderfynwyd gosod hysbyseb pwrpasol ar y biniau.
Tud 3. Cofnod Rhif 1996 – Parc Carwe – Arhoswn am fanylion pellach oddiwrth Coal UK.
Tud 3 Cofnod Rhif 1996 - Brynseilo/Ger Tŷ Mawr - Cysylltu eto ag Adran Tai Cyngor Sir Gar.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2000 Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2001 Salem Pedair Heol – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2002 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

Cynghorwyr Ian Evans,Tyssul Evans,Geraint Rosser a Tracey James yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2003 Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phonthenri – System Cyfathrebu'r Ffederasiwn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1200.00 allan o Gronfa Ffoslas a £2466.66 fel rhodd o'r Cyngor.

Ian,Tyssul,Geraint a Tracey yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2004 Cyngor Sir Gar - Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Penderfynwyd ein bod yn gosod cais am Lwybr newydd i Ysgol y Fro,Llangyndeyrn

2005 Cyngor Sir Gar – Cartrefi Fforddiadwy – Nodwyd y Llythyr.

2006 Cyngor Sir Gar - Mapio'r Tir a'r Eiddo y mae'r Sector Cyhoeddus yn berchen arno. - Nodwyd ein bod yn eiddo ar Barc Pontiets a Thoiledau'r Meinciau
2008 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth - Nodwyd bod rhaid cydnabod ein bod yn talu Lwfans o £300 i Gadeirydd y Cyngor erbyn 30/09/18.

2009 Neuadd Pontiets - Gwahoddiad i Helfa Drysor ar Droed a Thwmpath- 14/07/18 - Nodwyd y gwahoddiad gyda diolch.

Ceisiadau Cynllunio

2010 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/36561 – Mr Stiles – Heol y Meinciau,Pontiets- Tai Annedd- Dim Gwrthwynebiad.
b) Cais Rhif W/37032 - P.Rowlands - !24,Heol y Meinciau,Pontiets - Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2011 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin 2018.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2012 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Mehefin)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mehefin)
ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Mehefin)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mehefin)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £49.08 (Mis Mehefin)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mehefin)- £182.00
f) Stampiau - £30.42
ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau (Mis Mehefin) - £11.73
g) Marcus Dininno – Torri Gwair - £55.00
ng) Stuart Smith – Bocsys Blodau Pedair Heol - £50.00
h) Lwfans y Cadeirydd - £300.00

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 18/06/2018

2013 Llwybr ger Nasareth Pontiets :- Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid gan nad oedd hwn yn llwybr cyhoeddus y gellir cau'r llwybr.

2014 Camera CCTV – Safle Ail-gylchu'r Meinciau – Gan fod yr amcan brys dros £4000 penderfynwyd gadael y mater ar hyn o bryd.

2015 Swyddfa Bost Carwe – Cafwyd adroddiad gan y Clerc a phenderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa dros yr wythnosau nesaf.

2016 Les Newydd Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd nad oedd angen Gwarantwr i'r Les Newydd.

2017 Cyflog y Clerc – Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ein bod yn codi Cyflog y Clerc o Fis Medi 2018.

Materion Cynghorwyr

2018 Ian - a) Ymddiriedolaeth Coedwigo Carwe - angen Swyddog i fynychu Cyfarfod y Cyngor er mwyn trafod materion perthnasol.
b) Cysylltu â Gary Glenister ynghyn a Hewlydd Ffoslas.
c) Gwifren Trydan wedi torri ar Goeden Nadolig Brynseilo.
d) Cysylltu â John McAvoy ynglŷn â chyflymder traffig yn Ffoslas

2019 Cyffredinol - Gofyn i Barrie Hughes am amcan brys i edrych ar ôl Bocsys Blodau trwy'r Gymuned (efallai 2 ymhob Pentre')

Cyfarfod nesaf:- 3 o Fedi 2018 yn Neuadd yr Eglwys,Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……